
**CYD-BWYLLGOR GwE
01.02.2017**

Yn Bresennol: Y Cyng. Wyn Ellis Jones (Cadeirydd)
Y Cyng. Michael Williams (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Kenneth P. Hughes, Gareth Thomas,

Aelodau Cyfetholedig Heb Bleidlais: Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Ms Rita Pryce (Esgobaeth Wrecsam), Mair Herbert (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd)

Swyddogion Heb Bleidlais: Ian Budd (Cyfarwyddwr Arweiniol - Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint)), Dr. Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), , Delyth Molyneux (Cyngor Ynys Môn), Mrs Karen Evans (Cyngor Sir Dinbych), John Davies (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam)

Hefyd yn Bresennol: Arwyn L Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr Interim GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE), Martyn Gray (Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru), Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Addysg yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Mr Garem Jackson (Swyddog Addysg yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol), Dr Gwynne Jones (Cyngor Ynys Môn), Sandra Evans (Uwch Ymgynghorydd Adnoddau Dynol Yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd) ac Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd L Edwards a'r Cyngorydd Eryl Williams

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir, heb unrhyw fater yn codi ohonynt.

5. ADOLYGIAD O DREFNIADAU GWEITHREDU GwE

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Arweiniol a Rheolwr Gyfarwyddwr Interim yr adroddiad gan roi diweddariad i'r Cydbwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad a gomisiynwyd yn y cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor gefnogi argymhellion yr adolygiad a'r newidiadau i drefniadau gweithredu.

Cafwyd trafodaeth ble gwnaethpwyd y sylwadau canlynol :

Mae yn amlwg o'r mewnbwn i'r adroddiad bod pob rhanddeilydd eisiau i GwE lwyddo (Ysgolion/GwE/Awdurdodau) ond bod angen gwella ar draws y cyfnodau allweddol. Mae angen edrych ar y bias Cynradd/Uwchradd o 80/20 gan ddefnyddio staff i'w llawn botensial

Nodwyd y byddai yn ddefnyddiol cael darlun o sut mae gwahanol Awdurdodau Addysg yn gweithio er mwyn efallai gwneud y gymhariaeth?

Mae angen eglurder am rolau a disgwyliadau Ysgolion/GwE/Awdurdodau ynglŷn â materion cefnogi yr Unedau Cyfeirio.

Penderfynwyd: Derbyn, nodi a chymeradwyo'r adroddiad.

6. PENODI PRIF SWYDDOG/RHEOLWR GYFARWYDDWR GwE

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Arweiniol er mwyn cytuno ar y broses ar gyfer gwneud y penodiad uchod.

Nodwyd bod angen symud yn gyflym gyda'r ymgeiswyr yn mynychu y Ganolfan Asesu 1af Mawrth a Chyfweliad ar y 7fed o Fawrth.

Holodd Iwan G D Evans os mai'r Cydbwyllgor oedd yn tynnu y rhestr fer a chytunwyd mai dyma oedd y drefn.

Cytunwyd i ychwanegu y canlynol i'r swydd ddisgrifiad :

- (a) Yr angen am dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol mewn maes perthnasol
- (b) Rhestr cysylltiadau – cynnwys Awdurdodau Esgobaethol ar y rhestr

Cadarnhawyd y bydd y swydd yn cael ei hysbysu ar-lein ddiwedd yr wythnos hon.

Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad gan ychwanegu yr uchod.

7. MODEL UWCHRADD AC ARWEINYDDIAETH DDOSRANEDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Interim.

Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Rhaglen Herio a Chefnogi i:

- ddatblygu model diwygiedig o weithio gyda'r sector uwchradd; a
- datblygu model Arweinyddiaeth Ddosranedig ar draws sectorau cynradd ac uwchradd

Nodwyd bod angen gwneud yn siŵr bod y cynhwysedd ar gael i gefnogi yr uwchradd yn well, gan sicrhau fod cynllun cefnogaeth briodol mewn lle i bob ysgol. Er mwyn i hyn lwyddo, nodwyd y byddai angen croestoriad o unigolion ar y tîm megis Ymgynghorwyr Her, Penaethiaid, Ymgynghorwyr Her Bynciol a Chyn-benaethiaid gan ddatblygu timau o gwmpas ysgolion unigol. Nodwyd bod llawer o arbenigedd yn bodoli eisoes o fewn y tîm.

Nodwyd bod angen ystyried:

- a) Sut i gyllido y model, gan gofio bo raid unioni gwario o fewn yr adnoddau presennol
- b) Bod peth pryder am dynnu Penaethiaid o ysgolion ond cadarnhawyd y byddai'n cael ei drafod gydag unigolion i geisio gwneud yn siŵr bod hyn yn effeithio cyn lleied â phosib ar yr ysgol.
- c) Pwynt Karen Evans, o ran yr Agenda Gofal Cymdeithasol ac y byddai yn amserol cael cyflwyniad gan Jenny Williams er mwyn cael mynediad at eu harbenigedd hi a'i thîm.
- d) Llythyr Prif Weithredwr y CBAC a'r Ysgrifennydd Cabinet ar fyrder i wyntyllu rhai pryderon am yr arholiadau TGAU Mathemateg (Tachwedd 2016). Awgrymodd Martyn Gray, os yw'r pryder yn bodoli ar draws Cymru, bod angen ysgrifennu fel 4 rhanbarth neu hyd yn oed fel 22 Awdurdod.

Penderfynwyd: Derbyn, nodi a chymeradwyo'r adroddiad. Cytunwyd hefyd i gysylltu â Jenny Williams ac ysgrifennu at y CBAC a'r Ysgrifennydd Cabinet.

8. RÔL GWE WRTH BENODI STAFF MEWN YSGOLION (GAN GYNNWYS PENODI PENAETHIAID)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Interim er mwyn cyflwyno'r protocol rhanbarthol arfaethedig i'r Cyd-bwyllgor i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â rôl GwE wrth benodi staff mewn ysgolion. Croesawyd y protocol, yn enwedig o gofio bod problemau weithiau yn codi wrth wneud rhai penodiadau mewn ysgolion.

Nodwyd mai ceisio dod a sicrwydd ansawdd i'r drefn penodi mae yr uchod gan gefnogi a grymuso y broses penodi.

Nodwyd na fyddai angen staff yr Awdurdod a GwE yn bresennol mewn cyfweiliad.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad

9. PROSES GOSOD TARGEDAU RHANBARTHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Interim er mwyn rhoi diweddariad i'r Cydbwyllgor ar y broses gosod targedau rhanbarthol.

Nodwyd bod angen codi disgwyliadau yn enwedig yn CA4 ac atgoffwyd y Cydbwyllgor fod y broses o osod targedau yn rhan o argymhelliad cyntaf Estyn yn eu hadroddiad yn dilyn arolygiad y consortiwm.

Nodwyd bod amryfusedd rhwng y gwahanol ddata a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru – nid yw'r glir pa ddysgwyr EOTAS sy'n cael eu cynnwys yn y data. Nodwyd hefyd nad yw dysgwyr PYD yn cael eu cynnwys yn y data os ydynt mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Croesawyd yr egwyddorion a fabwysiadwyd yn yr adroddiad ar gyfer gosod targedau.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

10. DATBLYGU LLYTHRENNEDD A RHIFEDD AR DRAWS POB SECTOR YN RHANBARTH GwE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Interim er mwyn amlinellu yr angen i hybu gwelliant llythrennedd a rhifedd ar draws y rhanbarth.

Cafwyd cyflwyniad ar ganlyniadau arholiadau TGAU Mathemateg gan Alwyn Jones. Nodwyd pryder fod y ganran o ddysgwyr y rhanbarth a lwyddodd i gael graddau A*-C yn is na'r ffigyrau cenedlaethol. Rhoddwyd amlinelliad o'r camau gweithredu sydd mewn lle rhwng rŵan a'r Haf ar gyfer ymateb i'r canlyniadau Mathemateg. Nodwyd bod cyfarfod o gynrychiolwyr mathemateg o bob ysgol ar 2 Chwefror ac yn ystod Ebrill. Nodwyd hefyd bod yr Ymgynghorwyr Her Mathemateg yn gweithredu gyda grwpiau o ysgolion ac ysgolion unigol.

Gofynnwyd am gefnogaeth y Cydbwyllgor i ddatblygu strategaeth llythrennedd a rhifedd rhanbarthol a fydd yn gymorth i wella safonau ym mhob sector yn rhanbarth GwE.

Penderfynwyd: Cymeradwyo yr adroddiad gan weithio o fewn yr adnoddau ariannol presennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30 a.m. a daeth i ben am 11.35 a.m.

CADEIRYDD